

Trosolwg o'r pwnc

Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Mae'r ddogfen hon ar gyfer
ymgyrchwyr yn y refferendwm ar
aelodaeth y DU o'r UE sydd am ddeall
sut y caiff rhoddion eu rheoleiddio.

Cynnwys:

[Beth sy'n cyfrif fel rhodd](#)

[Derbyn rhoddion](#)

[Pennu gwerth rhoddion](#)

[Cofnodi a rhoi gwybod am roddion](#)

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement

Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr cofrestredig yn y refferendwm, a'r rhai sy'n bwriadu cofrestru, sydd am ddeall y rheolau ar roddion a sut y caiff rhoddion yn y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE eu rheoleiddio a'r hyn sydd angen i chi roi gwybod i ni amdano.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- Beth sy'n cyfrif fel rhodd
- Pryd y gallwch dderbyn rhoddion
- Pennu gwerth rhoddion
- Cofnodi rhoddion
- Rhoi gwybod am roddion

Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Benthyciadau ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)
- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#)

Papurau arbenigol

- [Rhannu gwariant](#)

Crynodeb

Caiff rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig yn y refferendwm eu rheoleiddio dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Mae hyn yn golygu, pan gewch rodd, fod yn rhaid i chi gadarnhau y gallwch ei derbyn, ei chofnodi ac, mewn rhai achosion, rhoi gwybod i ni amdani.

Mae'r trosolwg hwn yn egluro'r rheolau, ac yn dweud wrthy'ch ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth.

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2015 (PPERA) ("y Ddeddf"), mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei chynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Mae'r canllawiau'n adlewyrchu'r rheolau yn PPERA fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn darparu y gall y llywodraeth wneud newidiadau i'r rheolau o fewn rheoliadau. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn diweddarau ein canllawiau a'n tudalennau gwe i ddangos y newidiadau hynny. Nid yw'r Ddeddf yn pennu hyd y cyfnod dynodi, hyd cyfnod y refferendwm na dyddiadau dechrau'r cyfnodau hynny. Rhaid i'r llywodraeth lunio rheoliadau sy'n amlinellu hyd a dyddiad dechrau cyfnod y refferendwm. Byddwn yn diweddarau ein [gwefan](#) pan gaiff y rheoliadau hyn eu llunio.



Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig (a'r rhai sy'n bwriadu cofrestru). I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau a phryd mae angen i chi gofrestru â ni, gweler [ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE](#).

O dan PPERA, mae rheolau ar ba roddion y gall ymgyrchydd eu derbyn. Rhaid i rai rhoddion gael eu cofnodi a rhaid rhoi gwybod i ni amdanynt. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar ein [gwefan](#). Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at unigolyn cyfrifol cofrestredig ymgyrchydd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a ganiateir, gweler y ddogfen hon:

- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Pwy sy'n gyfrifol am roddion?

Rhaid i ymgyrchwyr benodi a chofrestru 'unigolyn cyfrifol' â ni. Os ydych yn blaid wleidyddol wedi'i chofrestru yn y DU, eich trysorydd cofrestredig fydd eich 'unigolyn cyfrifol' yn awtomatig. Os ydych yn ymgyrchydd unigol, chi fydd yr 'unigolyn cyfrifol'.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eu sefydliad yn dilyn y rheolau ar roddion. Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas yn y sefydliad er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â rhoddion yn gywir. Gall methu â chydymffurfio â'r rheolau ar roddion fod yn drosedd.

Pleidiau gwleidyddol

Dim ond rhoddion gan rai ffynonellau yn y DU neu yn Gibraltar y gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig yng Nghymru, yr Alban a Lloegr (heblaw mân pleidiau) eu derbyn a rhaid iddynt roi gwybod i ni am eu rhoddion bob chwarter. Y trysorydd yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'n ofynnol i bleidiau gadarnhau y caniateir rhoddion cyn y gallant eu derbyn. Ceir canllawiau ar gyfer pleidiau ym Mhrydain Fawr [yma](#) ac ar gyfer pleidiau yng Ngogledd Iwerddon [yma](#).

Mae rheolau ychwanegol ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn derbyn rhoddion ac yn cael benthyciadau ar gyfer ymgyrchu refferendwm gan:

- Ffynonellau yn Gibraltar,
- corff o dan siarter Brenhinol,
- Sefydliad Elusenol Corfforedig,
- Sefydliad Elusenol Corfforedig yr Alban a
- Partneriaeth Albanaid

Gallwch dderbyn rhoddion a benthyciadau gan y ffynonellau hyn hyd at werth terfyn gwariant eich plaid yn unig. Mae'n rhaid i chi gydgrynhoi gwerth rhoddion a benthyciadau o'r ffynonellau hynny i gyfrifo'r cyfanswm. Os ydych yn derbyn rhoddion a/neu benthyciadau gan y ffynonellau hyn a bod y cydgrynhoad hwn yn fwy na'ch terfyn gwariant, cysylltwch â ni yn syth am gyngor.

Mae'r rheolau yn wahanol ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn Gibraltar a phleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon. Gall y pleidiau hyn gael rhagor o wybodaeth am y rheolau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn yn ein canllawiau ar [Gibraltar a Refferendwm yr UE](#) a [Caniatâd ar gyfer Pleidiau Gwleidyddol Gogledd Iwerddon yn y Refferendwm](#).

Beth yw rhodd?

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant ar ymgyrchu mewn refferendwm
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol, ac sydd â gwerth o fwy na £500

O dan PPERA, **nid** yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.

Mae rhai enghreifftiau o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- noddi digwyddiad, cyhoeddiad neu ymchwil
- taliadau tanysgrifio neu daliadau ymlyniad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd o swyddfa

Gan bwy y gallwch dderbyn rhodd?

Dim ond gan roddwyr a ganiateir y dylai ymgyrchwyr cofrestredig dderbyn rhoddion. Cyn i chi dderbyn rhodd, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y rhoddwr yn cael ei ganiatáu cyn derbyn rhodd. Gall derbyn rhodd nas caniateir fod yn drosedd. Dylech hefyd gynnal y gwiriadau hyn cyn derbyn unrhyw rodd a gafwyd cyn i chi gofrestru fel ymgyrchydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am nawdd yn ein papur arbenigol:

- [Rhannu gwariant](#)

I gael rhagor o wybodaeth am gael rhoddion cyn cyfnod y refferendwm, gweler y ddogfen hon:

- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Pwysig

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gadarnhau a ganiateir rhoddion, gweler y ddogfen hon:

- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm](#)

Beth yw rhoddwr a ganiateir?

Rhoddwr a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholwyr y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rhai sy'n gadael cymynroddion
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr Gibraltar gan gynnwys y rhai sy'n gadael cymynroddion
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn Gibraltar ac sy'n gwmni corfforedig yn yr UE ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU neu Gibraltar
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU neu Gibraltar
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn Gibraltar ac sy'n cynnal busnes yn Gibraltar
- cymdeithas lesiant, diwydiannol, darbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn Gibraltar ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn Gibraltar
- corff sydd wedi ei gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth Albanaidd sy'n cynnal busnes yn y DU

Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr Refferendwm yr UE

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan fathau penodol o ymddiriedolaethau. Ffoniwch ni am ragor o gyngor ar roddion gan ymddiriedolaeth.

Rhaid i chi **beidio** â derbyn rhoddion gan bleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU neu Gibraltar, oni chawsoch eich dynodi yn ymgyrchydd arweiniol mewn refferendwm.



Sut rydych yn penderfynu p'un a allwch dderbyn rhodd?

Pan fyddwch yn cael unrhyw rodd o fwy na £500, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir. Pan fyddwch yn cael rhodd, bydd gennych 30 diwrnod i benderfynu p'un a allwch ei derbyn ai peidio.

Dylech ofyn i chi'ch hun:

- 'a wyf yn siŵr fy mod yn gwybod pwy sydd wedi rhoi'r rhodd hon?
- 'a yw'r rhoddwr yn un a ganiateir?'

Os

- nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu
- am unrhyw reswm arall na allwch fod yn siŵr gan bwy yn union y rhoddwyd y rhodd

rhaid i chi ei dychwelyd o fewn cyfnod o 30 diwrnod.

Os na ddychwelwch y rhodd o fewn 30 diwrnod, tybir eich bod wedi ei derbyn a gallwch chi a'ch sefydliad gael dirwy os yw'r rhodd o ffynhonnell nas caniateir.

Dylech hefyd gynnal y gwiriadau hyn cyn derbyn unrhyw rodd a gafwyd cyn i chi gofrestru.

Os ydych wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylech ddweud wrthym mor fuan â phosibl.

Rhaid i chi adio at ei gilydd a rhoi gwybod am roddion a ganiateir a gewch o'r un ffynhonnell. Dylech roi gwybod i ni am y symiau cyfanredol hyn pan fyddant yn mynd y tu hwnt i'r trothwy adrodd yn y ffurflen gwariant.

Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os rhoddir rhodd ar ran rhywun arall, rhaid i'r unigolyn sy'n rhoi'r rhodd i chi (yr asiant) ddweud wrthyhch:

- bod y rhodd ar ran rhywun arall
- manylion y rhoddwr gwirioneddol

Os credwch fod rhywun yn gweithredu fel asiant o bosibl, dylech ganfod y ffeithiau fel y gallwch wneud y gwiriadau priodol.

Un enghraifft o hyn yw lle mae trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo'r enillion o ginio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian ar ran eich ymgyrch. Bydd yr unigolyn hwnnw yn gweithredu fel yr asiant a roddodd arian fel rhan o'r digwyddiad. Bydd angen i chi gadarnhau bod y rhoddwyr yn y cinio wedi cael caniatâd.

Os nad ydych yn siŵr pwy yw'r rhoddwr gwirioneddol rhaid i chi beidio â derbyn y rhodd.



Pryd rydych yn 'cael' rhodd?

Rydych fel arfer yn 'cael' rhodd ar y diwrnod rydych yn dod yn berchen arni.

Er enghraifft:

- Os rhoddir taflenni am ddim i chi, rydych yn cael y rhodd pan gaiff y taflenni eu trosglwyddo i chi
- Os rhoddir siec i chi, rydych yn cael y rhodd ar y diwrnod y mae'r siec yn cael ei chlirio
- os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc rydych yn cael y rhodd ar y dyddiad rydych yn edrych ar eich cyfrif neu'r dyddiad rydych yn cael eich hysbysu bod y banc wedi'i chael, pa ddyddiad bynnag sydd gynharaf

Sut rydych yn dychwelyd rhodd?

Os cewch rodd nas caniateir a gwyddoch pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi dychwelyd y rhodd ato.

Os daw'r rhodd o ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd arian o £550 yn ddiennw), rhaid i chi ei dychwelyd at:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu os nad yw enw'r unigolyn yn hysbys
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd

Os nad ydych yn gwybod pwy yw'r naill na'r llall, rhaid i chi anfon y rhodd i'r Comisiwn Etholiadol. Byddwn yn ei thalu i mewn i Gronfa Gyfunol Llywodraeth y DU.

Os byddwch wedi ennill llog ar y rhodd cyn i chi ei dychwelyd, gall eich sefydliad ei gadw. Ni chaiff y llog hwn ei drin fel rhodd ac nid oes angen rhoi gwybod amdano.

Rhoddion o £500 neu lai

Nid yw rhoddion o £500 neu lai yn rhoddion a reoleiddir ac nid oes angen i chi eu cofnodi na rhoi gwybod amdanynt.

Fodd bynnag, dylech fod yn effro i sefyllfaoedd lle yr ymddengys fod rhoddwr yn ceisio anwybyddu'r rheolau drwy wneud cyfres o roddion bach, er enghraifft, os gwneir nifer o roddion o £400 o'r un ffynhonnell mewn amgylchiadau tebyg.



Mae'n drosedd ceisio anwybyddu'r rheolau ar roddion.

Sut rydych yn pennu gwerth rhodd anariannol?

Rhaid i chi bennu gwerth unrhyw rodd nad yw'n arian parod. Gwerth y rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a gewch a'r swm (os o gwbl) a dalwch amdano.

Os rhoddir eiddo, nwyddau neu wasanaethau am ddim i chi, neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, rhaid i chi bennu eu gwerth ar gyfradd y farchnad.

Er enghraifft:

Cyfradd y farchnad am nwyddau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£1,000	llai	£400	=	£600

Neu:

Cyfradd y farchnad am wasanaethau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£1,000	llai	£0	=	£1,000

Os mai darparwr masnachol yw'r rhoddwr, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid tebyg eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel cyfradd y farchnad.

Os byddwch yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y dylech bennu gwerth rhodd benodol, ffoniwch neu e-bostiwch ni i gael cyngor.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi, yn benodol, gan gyflenwyr.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad.

Pennu gwerth rhoddion o ddigwyddiadau codi arian

Os bydd eich sefydliad yn cynnal digwyddiad, neu'n darparu nwyddau neu wasanaethau i godi arian ar gyfer yr ymgyrch, bydd unrhyw elw dros £500 o'r digwyddiad (neu'r nwyddau neu wasanaethau) yn rhodd.

Gwerth unrhyw rodd yw'r elw a wneir gan y sefydliad gan bob rhoddwr.

Dylech weithio allan faint mae'n ei gostio i'r sefydliad am bob unigolyn sy'n mynychu'r digwyddiad, neu am bob unigolyn sy'n cael nwyddau neu wasanaethau. Yna, didynnwch y swm hwn o'r hyn y gwnaeth pob unigolyn ei dalu i chi i gyfrifo gwerth y rhodd.

Er enghraifft:

Rydych yn trefnu digwyddiad ac yn codi £1,000 y tocyn.

Cost y digwyddiad	÷	Pobl yn y digwyddiad	=	Cost fesul unigolyn
£25,000	wedi'i rhannu â	100	=	£250

Felly:

Swm y talodd yr unigolyn am y tocyn	-	Cost fesul unigolyn	=	Gwerth y rhodd
£1,000	llai	£250	=	£750

Os bydd y digwyddiad yn cynnwys arwerthiant, am ragor o wybodaeth gweler y ddogfen hon:

- [Papur arbenigol: Pennu gwerth gwobrau arwerthiant](#)

Pennu gwerth rhodd drwy nawdd

Os bydd rhywun yn noddi cyhoeddiad neu ddigwyddiad ar ran y sefydliad, gwerth y rhodd yw'r swm llawn a dalwyd ganddo.

Ni ddylech ddidynnu unrhyw symiau ar gyfer unrhyw fudd y mae'n ei gael drwy'r nawdd.

Pennu gwerth mathau eraill o roddion

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am bennu gwerth gofod swyddfa a staff wedi'u secondio yn ein papur arbenigol: [Rhannu gwariant](#).

Os byddwch yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y dylech bennu gwerth rhodd benodol, ffoniwch neu e-bostiwch ni i gael cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [taflen ffeithiau: Nawdd](#)

Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE

Pa gofnodion y mae angen i chi eu cadw o'ch rhoddion?

Rhoddion

Ar gyfer pob rhodd dros £7,500 rhaid i chi gofnodi:

- enw llawn y rhoddwr
- y cyfeiriad, neu gyfeiriad cofrestredig, y rhoddwr
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth (ar gyfer rhodd anariannol)
- Os oes gan roddwr gofrestrriad dienw, rhaid i chi ddarparu datganiad i gadarnhau eich bod wedi gweld tystiolaeth bod gan yr unigolyn gofnod dienw ar y gofrestr. Os cafwyd y rhodd gan ymddiriedolaeth, cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn sydd angen i chi roi gwybod amdano.

Rhaid i chi roi gwybod am roddion a geir o'r un ffynhonnell dros £500 yn ystod cyfnod y refferendwm sy'n gwneud cyfanswm o dros £7,500

Beth sydd angen i chi roi gwybod amdano?

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais erbyn dyddiadau cau penodol, gan nodi pa roddion a gafwyd a pha fenthyciadau a drefnwyd ganddynt ar neu ar ôl 1 Chwefror 2016 ar gyfer ymgyrch y refferendwm sy'n werth dros £7,500. Mae hyn yn cynnwys rhoddion a gafwyd cyn i'r ymgyrchydd gofrestru.

Caiff dyddiadau cau adroddiadau cyn y bleidlais ynghyd â dechrau cyfnod y refferendwm eu nodi mewn rheoliadau a wneir gan y llywodraeth. Byddwn yn hysbysu ymgyrchwyr pan fydd hyn yn digwydd ar ein [gwefan](#).

Ar hyn o bryd, dylech gadw cofnodion cywir o unrhyw roddion neu fenthyciadau gwerth dros £7,500 a gewch o 1 Chwefror a ddefnyddiwch neu y bwriadwch eu defnyddio ar ymgyrch y refferendwm (boed hynny cyn neu yn ystod cyfnod swyddogol y refferendwm) fel y gallwch gydymffurfio â'r gofyniad adrodd hwn.

Nid yw pleidiau gwleidyddol cofrestredig yn y DU nad ydynt yn fân pleidiau yn cyflwyno adroddiadau cyn y bleidlais nac yn rhoi gwybod am roddion ar ôl y refferendwm ond yn lle hynny maent yn rhoi gwybod amdanynt yn eu hadroddiadau chwarterol arferol. Ceir canllawiau ar wahân i bleidiau gwleidyddol ar gadarnhau y rhoddir caniatâd a rhoi gwybod am roddion [yma](#).

Byddwch yn gallu cyflwyno eich adroddiadau cyn y bleidlais [ar-lein](#) neu drwy gwblhau a dychwelyd [EUR-PPR - Adroddiad ar roddion cyn y bleidlais a benthyciadau](#). Fel yr unigolyn cyfrifol, rhaid i chi wneud datganiad yn yr adroddiad eich bod wedi archwilio'r adroddiad cyn y bleidlais a'i fod, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, yn adroddiad cyflawn a chywir fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith

I gael rhagor o wybodaeth am ba gofrestrau y mae angen i chi eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Rhoi gwybod ar ôl y refferendwm

Pa gofnodion sydd angen i chi eu cadw?

Rhaid i chi gofnodi a rhoi gwybod am bob rhodd dros £7,500 a gewch ar ôl i chi ddod yn ymgyrchydd cofrestredig.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw roddion a gewch fel ymgyrchydd cofrestredig cyn cyfnod y refferendwm, ond rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddefnydd yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd ar ôl y refferendwm.

Dylech gadw cofnodion o'r holl roddion dros £500 gan y bydd angen i chi roi gwybod am y rhain ar ôl y refferendwm

Rhoddion a dderbyniwyd gennych

Os derbyniwch rodd gwerth dros £500, rhaid cofnodi'r manylion canlynol:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhif cofrestru'r cwmni
- swm neu natur a gwerth y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

Rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr statudol berthnasol. Os mai etholwr tramor yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad cartref, a hynny am na fydd unrhyw gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholwyr.

Os mai cymdeithas anghorfforedig yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa, a hynny am nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig y gellir cyfeirio ati. a hynny am nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig y gellir cyfeirio ati.

I gael rhagor o wybodaeth am ba gofrestrau y mae angen i chi eu gwirio, gweler y ddogfen hon:

- [Yr hyn a ganiateir i ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Rhoddion a ddychwelwyd gennych

Os cewch rodd o ffynhonnell nas caniateir, rhaid i chi ei dychwelyd a chofnodi'r manylion canlynol:

- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth (ar gyfer rhodd anariannol)
- os ydych wedi cadarnhau pwy oedd y rhoddwr, ond nad oedd y rhoddwr yn un a ganiateir ar yr adeg berthnasol, enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os na allech gadarnhau pwy oedd y rhoddwr, manylion am sut y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y dychwelwyd y rhodd gennych
- y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu'r sefydliad y dychwelwyd y rhodd iddynt)

Bydd angen y manylion hyn arnoch pan rowch wybod i ni am y rhodd a ddychwelwyd.

Dylech hefyd gofnodi'r manylion hyn ar gyfer unrhyw roddion nas caniateir a dderbyniwyd cyn i chi gofrestru â ni.

Pa roddion sydd angen i chi roi gwybod amdanynt?

Rhaid i ymgyrchwyr heblaw pleidiau gwleidyddol (nad ydynt yn fân pleidiau) roi gwybod am rai rhoddion yn eu ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm. Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol roi gwybod am eu gwariant ar ymgyrchu mewn ffurflen gwariant ar ôl y bleidlais. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn mewn cofrestr ar ein [gwefan](#).

Ar ôl y refferendwm rhaid i chi roi gwybod am y canlynol:

- pob rhodd a ganiateir dros £7,500
- pob rhodd a ganiateir sy'n gwneud cyfanswm o dros £7,500 o'r un ffynhonnell
- pob rhodd nas caniateir

Rhaid i chi roi gwybod eto am bob rhodd rydych eisoes wedi ei chofnodi yn eich adroddiadau cyn y bleidlais ar ôl y refferendwm.

Rhaid i chi gynnwys yr holl fanylion a nodwyd uchod mewn perthynas â phob rhodd yn eich ffurflen gwariant.

Hefyd, rhaid i chi roi gwybod am gyfanswm gwerth y rhoddion a dderbyniwyd gan yr ymgyrch a oedd:

- yn werth mwy na £500
- ac yn llai neu'n hafal i £7,500


Nid oes angen i chi roi rhagor o wybodaeth am y rhoddion hyn.

Sut rydych yn rhoi gwybod am roddion?

Rhaid i chi roi gwybod i ni am roddion ar ôl y refferendwm, fel rhan o'ch ffurflen gwariant, gan ddefnyddio'r manylion a gofnodwyd gennych.

Bydd y dyddiad y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn dibynnu ar faint rydych yn ei wario ar eich ymgyrch.

Byddwn yn cyhoeddi'r dyddiadau cau ar gyfer Refferendwm yr UE mewn amserlen ar ein [gwefan](#). Fodd bynnag, fel canllaw, dangosir y dyddiadau cau cyffredinol isod.



I gael rhagor o wybodaeth am wariant ac adrodd, gweler y ddogfen hon:

- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen hyd yn oed os nad ydych wedi gwario unrhyw arian. Gelwir hyn yn

Gallech gael dirwy os na chyflwynwch eich ffurflen ar amser.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i <http://www.electoralcommission.org.uk/cymru>

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwnch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk